*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Helen MacArthur** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Rheoliadau Ariannol wedi'u Diweddaru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr adolygiad a'r diweddariad a drefnwyd i Reoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), a gymeradwywyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2022, ac amlinellu'r newidiadau allweddol a gyflwynwyd yn y diwygio a fu yn 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y Rheoliadau Ariannol eu diwygio yn 2022 ac maent i fod i gael eu hadolygu ar ôl tair blynedd. Mae'r adolygiad ar gyfer 2025 yn ddiweddariad cynhwysfawr â'r nod o symleiddio'r ddogfen, moderneiddio ei darpariaethau, a chyd-fynd â'r safonau deddfwriaethol a thechnolegol presennol. Mae'r fersiwn ddiwygiedig (v3.0) yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL / PWYLLGOR ARCHWILIO

3 Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio ac ardystiodd y Rheoliadau Ariannol drafft yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi ac cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru**

## CEFNDIR

5 Mae'r Rheoliadau Ariannol yn darparu'r fframwaith ar gyfer llywodraethiant, atebolrwydd, a stiwardiaeth ariannol ar draws yr Awdurdod. Cyhoeddwyd fersiwn 2022 (v2.0) gyda dyddiad adolygu wedi'i drefnu ar gyfer 31 Mawrth 2025. Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru (v3.0) wedi'i pharatoi gan y Pennaeth Cyllid a'i hadolygu gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol sy'n gyfrifol am Gyllid ac Adnoddau.

**GWYBODAETH**

6 Mae fersiwn 3.0 wedi symleiddio'r ddogfen ac yn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol mewn tirwedd ariannol a rheoleiddiol sy'n esblygu'n gyflym. Mae'r strwythur wedi'i fireinio i wella eglurder a defnyddioldeb, gan ddileu adrannau diangen a chyfuno'r canllawiau.

7 Cafodd y darpariaethau eu moderneiddio, gydag adrannau newydd wedi'u hychwanegu i adlewyrchu arferion ariannol cyfoes, gan gynnwys:

- **Bancio Digidol a Diogelwch Taliadau:** Cydymffurfio â Dilysu Cwsmeriaid Cryf (SCA) a Rheoliadau Gwasanaethau Talu 2017.
- **Cydymffurfio ag IFRS 16:** Gwell canllawiau ar brydlesu asedau a chyfrifyddu hawl-i-ddefnyddio.
- **Atal Twyll a Thryloywder Corfforaethol:** Cyd-fynd â Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, gan gynnwys cofrestrau perchnogaeth lesiannol a mwy o ddiwydrwydd dyladwy.

8 Yn unol ag arferion llywodraethiant da, bydd y Rheoliadau Ariannol yn destun adolygiad pellach dair blynedd wedi'r dyddiad cymeradwyo, neu'n gynharach os yw hynny'n ofynnol yn sgil newidiadau deddfwriaethol neu weithredol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cefnogi llywodraethiant a stiwardiaeth ariannol dda, gan gyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol, ond gall gwell rheolaethau leihau amlygiad i dwyll ac aneffeithlonrwydd. |
| Cyfreithiol | Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol o dan y Deddfau Llywodraeth Leol, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, a deddfwriaeth ddiweddar ar droseddau economaidd. |
| Staffio | Mae'n gofyn am ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth ar draws pob adran; bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu lle bo angen. |
| Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Nid oes unrhyw effaith andwyol wedi'i nodi. |
| Risgiau | Mae'r adolygiad yn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau sydd wedi dyddio, diffyg cydymffurfio, ac afreoleidd-dra ariannol. |